# Rhaglen Flaenllaw: Llwybrau at Radd

Dr Sara Jones, Darlithydd Cydlynol, Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Caerdydd

Dr Michelle Deininger, Cyfarwyddwr Dros Dro, Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Caerdydd

## Cyd-destun a chefndir

Mae Adran Dysgu Gydol Oes (LEARN) Prifysgol Caerdydd yn bodoli i ddarparu, cefnogi a hwyluso addysg uwch (AU) o ansawdd uchel, hygyrch, fforddiadwy a hyblyg ar gyfer ystod amrywiol o ddysgwyr sy'n oedolion a chymunedau.

Mae rhaglen flaenllaw LEARN, Llwybrau at Radd, yn cynnig llwybrau rhan-amser cefnogol at astudiaeth ar lefel gradd ym Mhrifysgol Caerdydd. Nod y Rhaglen yw ehangu mynediad i AU i oedolion na fyddent fel arfer yn ystyried gwneud cais i brifysgol: dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd, y rhai a gollodd y cyfle i astudio yn y brifysgol pan oeddent yn iau, a'r rhai sydd dan anfantais oherwydd anableddau corfforol a/neu gyflyrau iechyd meddwl. Mae LEARN fel arfer yn recriwtio myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig[1] a'r rhai o grwpiau blaenoriaeth y Brifysgol ar gyfer ehangu mynediad: y rhai sydd wedi bod trwy'r system ofal, gofalwyr, cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**Llwybrau**

- Rheolaeth Busnes, Marchnata, a Chyfrifeg
- Hanes, Archaeoleg, a Chrefydd
- Iaith Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Ysgrifennu Creadigol, ac Athroniaeth
- Gwyddorau Cymdeithasol
- MA mewn Gwaith Cymdeithasol
- Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth
- Y Gyfraith
- Gofal iechyd
- Ffarmacoleg Feddygol
- Therapi a Hylendid Deintyddol
- Optometreg
- Seicoleg
- Gwyddorau Daear ac Amgylcheddol
- Cyfrifiadureg a Pheirianneg Meddalwedd Gymhwysol

Mae pob Llwybr at Radd yn cynnwys 60 credyd o fodiwlau Lefel 4, ac fe'u datblygwyd a'u cyflwyno mewn partneriaeth ag ysgolion academaidd unigol. Ar hyn o bryd mae 13 Llwybr ar gael.

> 'Mae ymrwymiad Prifysgol Caerdydd i Ddysgu Gydol Oes yn rhan annatod o'i hanes, ac mae hirhoedledd a llwyddiant y rhaglen Llwybrau at Radd yn dyst i'r ymrwymiad hwn.'
> Dr Sara Jones,
> Dysgu Gydol Oes

---

[1] Mae hyn yn seiliedig ar gôd post yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC); mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o gwintilau 1 a 2, sy'n cynrychioli'r 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae Tîm Cymunedol ac Allgymorth LEARN yn gweithio gyda gwahanol fudiadau cymunedol sy'n cyfeirio cyrsiau Llwybr at eu cleientiaid.

Mae hyrwyddo a recriwtio o'r grwpiau hyn wedi bod yn llwyddiannus fel y dangosir yn Nhabl 1 ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

Tabl 1: Nodweddion dysgwyr Llwybrau at Radd 2024-25 (mae pob categori yn annibynnol ar y lleill, felly gall rhai dysgwyr gael eu cynnwys mewn mwy nag un rhes)

| Nodweddion myfyrwyr | Cyfran |
|---|---|
| Cwintil 1 neu 2 MALIC | 63% |
| Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig | 49% |
| Grwpiau blaenoriaeth Prifysgol Caerdydd: pobl sydd wedi bod trwy'r system ofal, cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio a cheiswyr lloches | 22% |
| Ffoaduriaid neu geiswyr lloches[2] | 14% |
| Wedi datgelu anabledd | 21% |
| LHDTC+ | 16% |

**Cymorth i fyfyrwyr Llwybrau at Radd**

Mae LEARN yn darparu cefnogaeth academaidd a bugeiliol bwrpasol i fyfyrwyr Llwybrau at Radd, sy'n cynnwys:

- Canllawiau academaidd cyn cofrestru
- Cyngor ar ddewis modiwlau
- Digwyddiad Sefydlu yn arbennig ar gyfer Llwybrau at Radd
- Canllawiau ar gyfer ceisiadau myfyrwyr am gyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru
- Cymorth parhaus gyda cheisiadau am le mewn prifysgol trwy UCAS, gan gynnwys cymorth ar gyfer llunio datganiadau personol a chael geirda
- Cefnogaeth fugeiliol gan diwtoriaid profiadol ym maes addysg oedolion, Cydlynydd Llwybrau at Radd, a Darlithwyr Cydlynu perthnasol
- Digwyddiad Sefydlu Myfyrwyr Hŷn ar ôl y Llwybr at Radd (dan arweiniad LEARN a'r tîm Ehangu Cyfranogiad, ac ar agor i bob myfyriwr hŷn yn y Brifysgol)

[2] Mae ceiswyr lloches yn cael eu cofnodi ddwywaith gan eu bod yn grŵp blaenoriaeth i Brifysgol Caerdydd ac yn gymwys i gael ysgoloriaethau gan y Brifysgol (nid felly ffoaduriaid)

**Llwyddiant myfyrwyr**

Mae niferoedd y myfyrwyr ar ein Llwybrau at Radd wedi aros yn iach er gwaethaf yr argyfwng costau byw ac effaith y pandemig. Yn 2023-24 cwblhaodd 61 o fyfyrwyr gwrs Llwybrau at Radd, ac mae 381 o fyfyrwyr Llwybrau at Radd wedi symud ymlaen i gyrsiau israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd ers hynny 2012. Yn achos myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu gradd, mae'n werth nodi bod cyfraddau dargadwedd a chwblhau o gryf: Mae'r gyfradd cwblhau yn achos cyn-fyfyrwyr Llwybrau at Radd ar gyfer graddau yn yr Ysgol Gofal Iechyd yn 94%; mae'r ffigur yn 89% yn yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, ac yn 86% yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol. O fewn Gofal Iechyd, mae tua 73% o fyfyrwyr yn cyflawni gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch.

Mae'r rhaglen Llwybrau at Radd yn creu cymunedau dysgu llwyddiannus ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu tangynrychioli, ac yn rhoi cyfle i unigolion gael mynediad at lwybrau rhan-amser i AU.

> ‘Mae gen i ddau o blant ifanc ac rwy'n gweithio'n rhan-amser. Roeddwn i bob amser yn teimlo y gallwn i fod wedi cyflawni mwy yn fy ieuenctid, pe bawn i wedi ymroi i fy astudiaethau. Roeddwn i wir eisiau profi i mi fy hun ac i fy mhlant nad yw hi byth yn rhy hwyr i weithio'n galed a chyflawni cymhwyster a all newid eich bywyd! Roeddwn i eisiau herio fy hun a dewis gyrfa sydd â chyfleoedd diddiwedd i barhau i ddysgu ac i dyfu'n broffesiynol. Rwyf mor falch fy mod i wedi gwneud cais am y cwrs hwn ac mor falch fy mod i wedi derbyn fy nghynnig amodol, er gwaethaf llawer o rwystrau personol. Fedra i ddim aros i brofi i fy mhlant nad oes terfyn oedran ar ddysgu a phrofi i mi fy hun y gallaf gyflawni, waeth beth fo'r rhwystrau y mae bywyd yn eu taflu ataf.’
>
> Myfyriwr Llwybr at Radd
> Optometreg

> ‘Mae'r gefnogaeth a dderbyniais wedi rhagori ar fy nisgwyliadau. Mae Cydlynwyr Llwybrau at Radd a'r cynghorydd cyllid wedi bod yn gyfathrebwyr eithriadol, gan roi arweiniad a chefnogaeth gyson i mi trwy gydol y broses. Mae fy nhiwtoriaid i gyd wedi bod yn athrawon rhagorol, bob amser ar gael i fy helpu i wneud y gorau o fy mhrofiad dysgu. Rwy'n teimlo fy mod i wedi cael cefnogaeth dda iawn.’
>
> Myfyriwr Llwybr at Radd
> Gofal Iechyd

> ‘Pan ddes i i Gymru, doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud. Ble ddylwn i ddechrau. Ond ers y cyrsiau ym Mhrifysgol Caerdydd, mae fel pe bai popeth amdanaf wedi dod yn fyw unwaith eto. Mae'r darlithwyr yn wych. Rydw i wedi dysgu mewn ffordd wahanol, ffordd hwyliog. Mae wedi bod yn effeithiol iawn, yn rhyngweithiol iawn. Rwy'n gwybod nawr beth rwy'n anelu ato. Gallaf fyw. Dwi'n gallu canolbwyntio a gwybod ble dwi'n mynd. Mae wedi bod yn anhygoel. Gwneud ffrindiau, rhannu profiadau a grymuso ein gilydd.’
>
> Myfyriwr Llwybr at Radd
> Gwyddorau Cymdeithasol

> ‘Rydym ni yn yr adran Dysgu Gydol Oes yn deall beth mae'n ei olygu i neilltuo amser ar gyfer astudio ac i flaenoriaethu dysgu wrth gydbwyso bywyd prysur, boed hynny'n waith cyflogedig, bod yn ofalwr am oedolyn neu blant, ymysg pethau eraill. Mae yna hefyd yr holl agweddau cydgysylltiedig eraill a all wneud mynediad at addysg yn anoddach: dosbarth cymdeithasol, rhywedd, anabledd, hil, crefydd, rhywioldeb neu realiti materol tlodi. Mae'r ffaith bod cynifer o'n myfyrwyr disglair, gweithgar ac ymroddedig yn llwyddo ar eu teithiau yn dyst i bŵer trawsnewidiol addysg, ac rydym mor falch o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni.’
>
> Dr Michelle Deininger, Cyfarwyddwr Dros-dro,
> Dysgu Gydol Oes



Cyn-fyfyrwyr Llwybrau yn graddio gyda BSc mewn Therapi Galwedigaethol

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar [wefan QAA Cymru](#).